**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Yr Is-bwyllgor Darlledu

# Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru

Adroddiad ymchwiliad
Mehefin 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Yr Is-bwyllgor Darlledu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8429
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: pwyllgor.cymuned.diwylliant@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Yr Is-bwyllgor Darlledu

# Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru

Adroddiad ymchwiliad
Mehefin 2009

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**
**Yr Is-bwyllgor Darlledu**
**Adroddiad ymchwiliad**
**Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru**

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | 4 |
| | |
| **Rhagair y Cadeirydd** | 5 |
| | |
| **Argymhellion** | 6 |
| | |
| **Cyflwyniad**<br>• Cylch gorchwyl | 7 |
| | |
| **Cefndir** | 8-10 |
| | |
| **Cyd-destun deddfwriaethol** | 11 |
| | |
| **Materion allweddol**<br>• Tirwedd sy'n newid yn gyflym<br>• Rhwystrau eraill i bapurau newydd<br>• Comisiwn Cyfryngau Cymru<br>• Crynodeb | 12<br>12<br>20<br>28<br>29 |
| **Atodiadau**<br>• Atodiad 1- Sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn uniongyrchol<br>• Atodiad 2 - Atodlen papurau'r Pwyllgor | 30<br>30<br><br>32 |

## Aelodau'r Pwyllgor



**Dai Lloyd**
Cadeirydd
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Alun Cairns**
Gorllewin De Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

# Rhagair y Cadeirydd



Cafodd yr ymchwiliad hwn ei ysgogi gan sefyllfa fwyfwy bregus papurau newydd lleol yng Nghymru. Yn benodol, dygodd colli swyddi yn Media Wales sylw at y mater.

Gwnaethom glywed oddi wrth yr holl brif grwpiau papurau newydd lleol yng Nghymru yn ystod yr ymchwiliad hwn, a gwnaeth un thema gyffredin ein taro, sef bod y rhain yn amseroedd anodd a newidiol ac nad oes unrhyw ffordd rwydd ymlaen i bapurau newydd lleol. Roedd hefyd yn amlwg mai marchnad a oedd yn newid yn fwyfwy cyflym oedd yn achosi'r newidiadau hyn, oherwydd ffyrdd cynyddol amrywiol y cyhoedd o gyrchu newyddion a materion cyfoes, yn enwedig trwy'r rhyngrwyd. Rydym yn cydnabod mai ychydig y gall yr Is-bwyllgor hwn ei wneud i newid y grymoedd marchnad pwerus hyn. Er hynny, mae yna elfennau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ganolbwyntio arnynt i liniaru pethau rhywfaint i bapurau newydd lleol yn yr amseroedd anodd hyn, hyd yn oed os na allant gynnig ateb i'w problemau. Er i lawer o dystiolaeth ddod i law a oedd yn canolbwyntio ar y farchnad newidiol, ac er bod hyn wedi'i nodi yn ein hadroddiad, rydym wedi canolbwyntio ar yr elfennau hynny lle gallwn ddylanwadu ar lywodraethau.

Efallai mai casgliad mwyaf trawiadol ein hymchwiliad yw bod papurau lleol llwyddiannus yn llwyddiannus oherwydd mai dyna ydynt yn y bôn – *lleol*. Mae hyn oherwydd eu bod yn adnodd gwerthfawr ac annwyl i gymunedau lleol, yn enwedig pan mae'r hyn sy'n digwydd yn y cymunedau hynny'n cael ei adlewyrchu'n fanwl gywir mewn ffordd y mae papurau newydd cenedlaethol a chyfryngau eraill yn ei chael yn anodd i'w chyfleu. Mae hyn yn rhoi gobaith i ni y bydd papurau newydd lleol yn darganfod ffordd i ddod trwy'r gwaethaf ac wedyn yn dod yn fusnesau proffidiol yn y byd hwn sy'n esblygu.



## Argymhellion

### Argymhelliad 1:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno achos i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd bod rheolau traws-gyfryngau'n cael eu llacio i ganiatáu archwilio partneriaethau newydd

### Argymhelliad 2:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno achos i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd y bydd mesurau i amddiffyn lluosogrwydd cyfryngau lleol yn cyd-fynd ag unrhyw symudiad i lacio rheoliadau sy'n ymwneud â pherchnogaeth traws-gyfryngau

### Argymhelliad 3:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu deialog â chwmnïau papurau newydd ac undebau i archwilio modd o gefnogi newyddiaduraeth Saesneg yng Nghymru

### Argymhelliad 4:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth lunio'i dull strategol o drin hysbysebu, ystyried cylchrediad a threiddiadau'r papurau newydd dan sylw, a sicrhau nad yw teitlau perthnasol yn cael eu hesgeuluso. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad gyfathrebu ei strategaeth hysbysebu'n eglur i gwmnïau papurau newydd Cymru

## Cyflwyniad

Cytunodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i gynnal ymchwiliad i gyflwr diwydiant papurau newydd Cymru (papurau newydd lleol a rhanbarthol Cymru) ar 15 Ionawr 2009, ac y dylai Is-bwyllgor Darlledu'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ei gynnal.

Dechreuodd yr ymchwiliad ar 22 Ionawr 2009 a daeth i ben ar 19 Mawrth 2009.

Pan benderfynodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y dylid cynnal ymchwiliad i bapurau newydd, roedd eisoes wedi sefydlu'r Is-bwyllgor Darlledu er mwyn ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru, addaswyd ei gylch gorchwyl gwreiddiol i'w ganiatáu i wneud hynny. Fodd bynnag, bwriad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, fel y rhiant-bwyllgor, oedd rhoi terfyn amser penodol i'r Is-bwyllgor, felly cadwyd at y cyfeiriad yn y cylch gorchwyl a oedd yn cysylltu hyd oes y Pwyllgor ag adroddiad terfynol Ofcom. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Ofcom ar 21 Ionawr sy'n golygu y dylai'r Is-bwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ar y diwydiant papurau newydd yng Nghymru erbyn 21 Ebrill. Rhagwelwyd yn y lle cyntaf y byddai'r ymchwiliad hwn yn fyr iawn (un neu ddau o gyfarfodydd). Fodd bynnag, yn dilyn y dystiolaeth gychwynnol, roedd y Pwyllgor am sicrhau ei fod yn cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru, ac felly neilltuwyd mwy o gyfarfodydd ar gyfer casglu tystiolaeth. O'r herwydd, roedd dyddiad cau 21 Ebrill ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad yn afrealistig, yn enwedig gan fod y dyddiad hwn yn ystod cyfnod toriad y Cynulliad. Felly, cyhoeddwyd yr adroddiad hwn cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwn yn nhymor yr haf.

### *Cylch gorchwyl*

Y cylch gorchwyl y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 15 Ionawr oedd:

*Mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn cytuno y dylid sefydlu Is-bwyllgor Darlledu. Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor yw:*

- *cyflwyno adroddiad, erbyn 4 Rhagfyr 2008, ar y cynigion yng Nghyfnod 2 Adolygiad Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus*

- *cyflwyno adroddiad ar gyflwr y diwydiant papurau newydd yng Nghymru ar hyn o bryd*

- *cyflwyno adroddiad ar adroddiad terfynol Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus o fewn 3 mis iddo gael ei gyhoeddi*

*Bydd yr Is-bwyllgor yn peidio â bod wedi iddo gyhoeddi ei adroddiad ar gasgliadau Ofcom ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.*

## Cefndir

### Gwreiddiau papurau newydd

Mae papurau newydd lleol wedi bodoli yn y DU ers i'r *Norwich Post* gael ei gyhoeddi am y tro cyntaf ym 1701. Ers hynny, maent wedi dod yn arwyddocaol dros ben i'r cymunedau y maent yn cael eu cylchredeg ynddynt. Maent yn adlewyrchu ac yn llunio hunaniaeth a chydlyniad cymunedol trwy hysbysu'r cyhoedd ac ysgogi dadl ar faterion sy'n hanfodol i ddemocratiaeth, yn ogystal â gweithredu fel archif a chronicl i'r gymuned – cofnodi genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, yn ogystal â thrafodion gwleidyddol a sefydliadol arwyddocaol.[1]

Yn ôl disgrifiad rhai, mae papurau newydd yn darparu'r 'drafft cyntaf o hanes' wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn; maent hefyd yn fusnesau y mae angen iddynt wneud elw i oroesi:

*…we are businesses and there is no public element in that sense. Everything has to fit the model of profitability. To date, it suited that model of profitability to get the most credible and quality based journalism that we could, because the more quality-based journalism that we get, the greater our audience and therefore the more advertising we get[2].*

### Pam mae papurau newydd yn bwysig?

Er bod papurau newydd yn ddymunadwy i hysbysu, addysgu a difyrru'r cyhoedd, mae'n ddilys gofyn – a ydynt yn hanfodol? Nid oes unrhyw amheuaeth bod papurau newydd yn cyfrannu at ddadl wleidyddol, yn enwedig mewn amgylchedd cyfansoddiadol newidiol a chyflym fel yr un sydd gennym yng Nghymru:

*…80 per cent of the community will read the local paper but only 25 per cent will read even a major tabloid. When I was dealing with senior spin doctors from No. 10 of both political persuasions, I found they understood the value of those papers…I remember one chap saying that the Batley and Birstall News was far more important than The Times…because it sits around for a week, more people read it, it has audience reach and people trust it[3]*

Mae papurau newydd rhanbarthol yn werthfawr fel offeryn i gael pobl i ymgysylltu â materion gwleidyddol a chyfansoddiadol, ac maent felly er budd democratiaeth.

### Papurau newydd yng Nghymru

Gwerthir papurau newydd cenedlaethol y DU yng Nghymru hefyd, ac maent wedi cyfrannu at dirwedd y diwydiant. Fodd bynnag, mae llawer yn dadlau nad yw cyfryngau print cenedlaethol y DU, nad ydynt 'ar yr un donfedd' â Chymru, wedi gwasanaethu dinasyddion Cymru yn dda iawn:

[1] Prifysgol Caerdydd, yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth ysgrifenedig BSC(3)-03-09, Papur 2
[2] NWN Media, Barrie Jones – tystiolaeth lafar 5.2.09
[3] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09

*Mae'n rhaid edrych yn fanwl iawn i ddod o hyd i newyddion am wleidyddiaeth Cymru ym mhrif bapurau newydd y DU. Nid yw hyn ddim ond yn tanlinellu rôl allweddol y gwasanaethau newyddion rhanbarthol. Mewn cyd-destun Cymreig, mae'r Western Mail, y Daily Post a theitlau eraill Trinity Mirror yng Nghymru wedi gwneud cyfraniad hollbwysig ers tro byd o ran sicrhau bod dinasyddion Cymru yn gallu darllen yn y papurau newydd am y prosesau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd*[4]

Efallai mai dyma pam mai papurau newydd lleol yw'r busnesau papurau newydd sydd wedi perfformio orau yn hanesyddol. Yng Nghymru, y wasg leol sydd i'w chael yn bennaf o bell ffordd yn y farchnad papurau newydd, heb unrhyw bapur newydd gwirioneddol 'genedlaethol'. Y Western Mail, sy'n gwasanaethu de'r wlad, yw'r papur agosaf at hyn a'r Daily Post, sy'n gwasanaethu'r gogledd.

Mae papurau newydd lleol wedi bod yn broffidiol iawn yn y gorffennol diweddar:

*In the 1980s regional newspaper groups in the UK aspired to make a profit return on turnover of around 10%. Expectations have now been raised much higher*[5]

Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru. Ystyriwch Media Wales fel enghraifft. Yn ystod y 5 mlynedd rhwng dechrau 2003 a diwedd 2007, mae maint elw Media Wales wedi bod yn 34.13% ar gyfartaledd, gan ddod i anterth ar 38.21% yn ystod y 12 mis hyd ddiwedd 2005.[6]

Mae'r symiau elw hyn yn golygu mai Media Wales yw un o'r cwmnïau mwyaf proffidiol yng Nghymru o unrhyw fath, heb sôn am ddiwydiant y cyfryngau.[7]

Dywedodd tystion wrthym fod papurau newydd wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru, i raddau helaeth, oherwydd y canolbwyntio hwn ar newyddion lleol, sydd o ddiddordeb uniongyrchol i'r bobl mewn ardal benodol.

Mae yna bum darparwr papurau newydd blaenllaw yng Nghymru sydd â ffocws daearyddol cryf:

- Trinity Mirror – ar 13 Ionawr 2009, cyfunodd Media Wales ag is-gwmni Gogledd-Orllewin Lloegr/Gogledd Cymru Trinity Mirror i lunio papurau rhanbarthol newydd Rhanbarth Gogledd-Orllewin Lloegr a Chymru a reolir o Lerpwl

- Newsquest – sy'n cyhoeddi'r South Wales Argus yng Nghasnewydd

[4] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig
[5] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Martin Shipton, Tystiolaeth lafar 22.01.09
[6] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Martin Shipton, Tystiolaeth lafar 22.01.09
[7] Prifysgol Caerdydd – Dr. Williams, tystiolaeth lafar 22.01.09

- Northcliffe Media – sy'n cyhoeddi'r South Wales Evening Post

- NWN Media – cwmni Cymreig, â'i sail yng Nghymru, dan berchnogaeth teulu. Mae gan y grŵp 12 teitl a gyhoeddir mewn 17 o argraffiadau

- Tindle News – sy'n cyhoeddi'r West Wales Observer a theitlau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y Cambrian News yn Aberystwyth a'r Cymro

***Casgliadau Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn ystod yr 2il Gynulliad[8]***

Penderfynodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y byddai'n cynnal adolygiad byr o bapurau newydd Saesneg yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2005. Cynhaliodd dair sesiwn tystiolaeth gan glywed oddi wrth y prif grwpiau papurau newydd yng Nghymru, undebau'r cyfryngau ac Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd.

Casgliadau allweddol y Pwyllgor sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn oedd:

- Dylai Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r cyrsiau hyfforddi newyddiadurwyr a ddarperir mewn colegau addysg bellach ac addysg uwch gan ddefnyddio arian cyhoeddus

- Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru[9] adolygu ei strategaeth hysbysebion papurau newydd o ran hysbysebion swyddi, i sicrhau eu bod yn cael eu gosod mewn papurau newydd ledled Cymru

[8] http://www.cynulliadcymru.org/N0000000000000000000000000045522.pdf
[9] Pan wnaed yr argymhelliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y corff corfforaethol trosfwaol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwasanaeth Seneddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn gyrff corfforaethol ar wahân, yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Cyd-destun deddfwriaethol

Mae yna ddarpariaeth yn Adran 28 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n golygu y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu Pwyllgorau ac is-bwyllgorau trwy ei Reolau Sefydlog. Yn unol â'r grym hwnnw, mae Rheol Sefydlog 10 o Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn delio â Phwyllgorau'n gyffredinol, a sefydlwyd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn unol â Rheol Sefydlog 12. Mae'r Pwyllgor hwnnw, yn ei dro, wedi sefydlu is-bwyllgor Darlledu dan Reol Sefydlog 10.15 dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad.

Mae deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r diwydiant papurau newydd yn benodol yn gyfyngedig wrth natur. Y mwyaf cyffredin yw darpariaethau deddfwriaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi hysbysiadau sydd â goblygiadau cyfreithiol mewn papurau newydd. Nid yw'r ddeddfwriaeth honno'n berthnasol i destun yr ymholiad hwn. Mae maes arall o ddeddfwriaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r diwydiant yn ymwneud â chynnwys, sef difenwad, dirmyg llys a hawlfraint. Eto, nid yw hynny'n berthnasol i'r ymchwiliad penodol hwn.

Mae yna ddau faes o'r gyfraith sy'n fwy uniongyrchol berthnasol i'r dystiolaeth y bu ein hymchwiliad yn ei hystyried a'r argymhellion y gwnaethom. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn ymwneud â pherchnogaeth papurau newydd a'r ffaith bod niferoedd perchnogion ar drai o ganlyniad i uno cwmnïau a chwmnïau'n cymryd papurau newydd eraill drosodd. Mae yna ddeddfwriaeth sylweddol, gan gynnwys deddfwriaeth Ewropeaidd, sy'n delio â'r pwnc hwn. Maes cysylltiedig o'r gyfraith yw hwnnw sy'n delio â darlledu, lle ceir rheolau penodol sy'n ymwneud â chyhoeddwyr papurau newydd yn berchen ar gwmnïau darlledu. Cyfeirir at y rheolau hyn yn y paragraffau a ganlyn.

Manylir ar gymhwysedd deddfwriaethol cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol yn Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Y meysydd mwyaf perthnasol y gellir datganoli cymhwysedd deddfwriaethol ynddynt yw Maes 3: Diwylliant a Maes 4: Datblygu Economaidd. Ni throsglwyddwyd unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn y Meysydd hyn. Felly San Steffan sydd â'r grym i ddeddfu o hyd.

Yn fwy arwyddocaol, mae Atodlen 7 Deddf 2006 yn manylu ar y pynciau o ran pa gymhwysedd deddfwriaethol fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn refferendwm. Mae'r meysydd pynciau'n dilyn yr un patrwm â'r un yn Atodlen 5. O fewn Maes 3: Diwylliant, mae Darlledu wedi'i gynnwys yn benodol fel eithriad i'r grymoedd a fyddai'n cael eu trosglwyddo. Yn yr un modd, mae Maes 4: Datblygu Economaidd yn cynnwys eithriad sy'n ganolog i'r materion a ystyrir yn yr adroddiad hwn – Rheoleiddio arferion a chytundebau gwrth-gystadleuol, camddefnyddio safle trech a monopolïau ac uno cwmnïau

O'r herwydd, yn achos unrhyw ddeddfwriaeth y byddai ei hangen i weithredu'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, byddai'n rhaid ei gwneud yn San Steffan. Dyna pam y mynegir argymhellion perthnasol yn yr adroddiad hwn yn nhermau Gweinidogion Cymru'n cyflwyno achos i Weinidogion y DU.

## Materion allweddol

## Tirwedd sy'n cyflym newid

*The industry is facing a double-whammy of the economic recession and structural problems affecting the industry*[10]

1. Mae'r dirwasgiad economaidd yn effeithio ar fusnesau papurau newydd yn enwedig trwy refeniw hysbysebu llai yn ogystal â'r problemau di-rif eraill sy'n gwarchae ar unrhyw fusnes mewn amser o ddirwasgiad:

*…in Britain we are not just faced with economic challenges but with the huge change in media consumption. All newspapers and media companies are now suffering from these economic constraints. Costs are up and revenues are falling. We intend to remain profitable – there is no shame in that – and without profits, we cannot invest in the future of the business*[11]

2. Cymharol fach yw'r hyn y gall y diwydiant ei wneud i newid hyn, heblaw am weithredu i amddiffyn ei hun yn y ffyrdd y byddai unrhyw fusnes a reolir yn dda yn ei wneud.

### *Cynnydd y rhyngrwyd*

3. Mae tirwedd y newyddion a'r cyfryngau mewn amser o ansicrwydd. Mae newidiadau technolegol wedi bod yn bygwth y ffordd o ddefnyddio newyddion ers cryn amser, ac maent bellach yn ysgogi newid sydyn yn arferion pobl wrth ddefnyddio'r newyddion. Y gred yw mai'r rhyngrwyd yw olynydd naturiol y gair printiedig oherwydd ei fod yn cynnig cyfuniad o uniongyrchedd a photensial ar gyfer personoli a rhyngweithio nad oes ei debyg yn y cyfryngau traddodiadol.[12] Fodd bynnag, mae ffactorau eraill wedi cyfrannu at y dirywiad yn y cyfryngau print:

*…newspapers were declining before the web was invented and before most of us were emailing. There were all sorts of lifestyle changes at the time – we were demolishing estates, moving people out of inner-city areas and shutting down the sorts of jobs where people bought a paper on their way to work to read during their lunch hour*[13]

4. Mae'r amgylchedd cyfathrebu rydym ni oll yn byw ynddo hefyd wedi bod yn cyflym newid. Mae'r teledu a'r radio wedi disodli'r gair printiedig fwyfwy o ran cyfleu newyddion i bobl – mae'n anodd mynd trwy'r diwrnod heb fod â syniad rhesymol o newyddion cyffredinol y dydd, o fodd neu anfodd. Rydym byth a hefyd yn cael ein peledu â gwybodaeth ar y radio yn y car ar y ffordd i'r gwaith, mewn papurau rhad ac am ddim (fel Metro), ar sgriniau teledu ac ar ein cyfrifiaduron – y cwbl y mae'n rhaid ichi ei wneud yw defnyddio chwilotwr fel *Yahoo* ac mae'r pedair brif stori newyddion yn cael

[10] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Martin Shipton, Tystiolaeth lafar 22.01.09
[11] Media Wales – Alan Edmunds, Golygydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[12] Media in Wales – Serving Public Values
[13] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09

eu cyflwyno ichi â chrynodeb un frawddeg ac mae un clic yn golygu y gallwch ddarllen y manylion, os yw o ddiddordeb ichi. Hyd yn oed os ydych yn gwneud ymdrech i osgoi'r cyflenwadau gwybodaeth hyn, mae pawb rydych yn dod i gysylltiad â nhw'n gydnabyddus â'r newyddion, a bydd teulu, ffrindiau a chydweithwyr wrth eu bodd o'ch rhoi ar ben y ffordd ynghylch pethau os ydych wedi llwyddo i fethu'r newyddion. Nid yw papurau newydd mwyach yn cyflawni swyddogaeth rhoi gwybod i ni beth sydd wedi digwydd:

*The day after 9/11, there was a presumption across all print media that everybody knew what had happened, so they moved immediately into analysis. The bigger the news story, the more that is the case*[14]

5. Yn ôl disgrifiad yr Athro Franklin, mae'n well gan rai papurau newydd golofnwyr a sylwadau golygyddol na newyddion cwbl ffeithiol.[15]
6. Mae'n siŵr mai band eang cyflymach ac ehangach ei gwmpas sydd o'n blaenau, gan ddod â mwy o allu i ryngweithio a gwybodaeth yn gyflymach nag erioed. Nid oes gan unrhyw un o'r grwpiau papurau newydd y gwnaethom glywed oddi wrthynt amheuaeth ynglŷn â'r esblygiad hwn o'r cyfryngau printiedig; yn wir, roedd pawb yn cydnabod bod yna gysylltiad annatod rhwng goroesiad â newid cyflym ac ysgubol.

7. Yn draddodiadol, 'gwybodaeth' yw'r hyn y mae papurau newydd wedi'i darparu'n bennaf. Fodd bynnag, fel 'cyflenwr gwybodaeth' ni allant gystadlu â'r rhyngrwyd, sef 'cyfrwng newyddion crai' sydd yno yn y fan a'r lle ac yn fanwl gywir (gan mwyaf).

8. Mae'n amlwg bod mwyafrif y grwpiau papurau newydd yn meddwl mai'r rhyngrwyd yw'r ffordd ymlaen fel *cydran* o fodel busnes cynaliadwy, hyd yn oed os nad yw'n gwbl eglur sut bydd yn cyflawni hyn. Mae pawb yn y busnes papurau newydd yn buddsoddi yn y rhyngrwyd, ond nid yw ar hyn o bryd yn cynhyrchu'r elw i gefnogi graddfa'r buddsoddiad:

*Er bod Trinity Mirror wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygiadau aml-gyfryngol, y gwir amdani yw bod 90 y cant o'i incwm yn dod o bapurau newydd print a 10 y cant yn unig sy'n dod o refeniw digidol. Felly, ni all cwmnïau fel Trinity Mirror symud i ffwrdd o'r byd print, ond byddant yn sicr yn gweld newid yn y cydbwysedd hwnnw dros y blynyddoedd nesaf...Os cawn fand eang hynod gyflym... bydd hynny'n newid y sefyllfa yn sylweddol*[16]

*If 'online only' cannot be made to work from a financial perspective, a paper's online presence may need to be reduced significantly to encourage people back to the physical product. Japan's newspapers have always restricted their online presence, and its titles have suffered a lower decline in readership and advertising than its North American and European peers. It could be several*

---

[14] NWN Media – Barrie Jones, tystiolaeth lafar 05.02.09
[15] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth ysgrifenedig – *The future of newspapers; a comparative assessment* BSC(3)-03-09
[16]Sefydliad Materion Cymreig – Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, tystiolaeth lafar 22.01.09

*years, however, before readers are prepared to pay for content that was previously free*[17]

***Model busnes newidiol***

9. Mae angen dull gwahanol o drin y model busnes ar-lein gan fod y cyfleoedd i wneud arian yn brinnach ac yn wahanol i'r cyfleoedd yn y cyfryngau printiedig. Eglurodd Dr. Williams i ni y tri dull y gallai papurau newydd o bosibl eu defnyddio i wneud arian o newyddiaduraeth ddigidol:[18]

   - **O hysbysebu uniongyrchol** – yn yr un modd ag y mae papurau newydd traddodiadol yn gwneud arian. Er y gall y model hwn gyfrannu at y model busnes, nid yw'n debygol y bydd yn gallu cefnogi'r busnes yn llwyr oherwydd, hyd yn oed yn y sefyllfa orau y gellid ei dychmygu, mae darllenwr y we yn werth sylweddol llai na darllenwr print i hysbysebwyr (yn ôl yr amcangyfrif, mae'r cymarebau'n amrywio rhwng 1:5 a 1:100 o ran gwerth darllenwr ar-lein a gwerth darllenwr print). Mae'r rhyngrwyd yn farchnad fwy o lawer ac nid yw'r trechedd y mae hysbysebwyr yn ei fwynhau mewn print yno ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o arian hysbysebu ar-lein yn mynd yn uniongyrchol i 'frodorion digidol' fel chwilotwyr

   - **Trwy danysgrifiad ar-lein** – yn gwerthu cynnwys yn yr un modd ag rydych yn gwerthu cynnwys papur newydd. Yn anffodus i'r diwydiant, nid yw'r dull hwn yn boblogaidd â defnyddwyr – mae'r mwyafrif o wefannau newyddion yn rhad ac am ddim, ar wahân i'r Financial Times ar-lein a'r Wall Street Journal ar-lein, er mai'r bwriad yw newid yr olaf o'r rhain o wasanaeth tanysgrifiad i un rhad ac am ddim

   - **Trwy gymeradwyaeth brand papur newydd** – yn y bôn, mae brand y papur newydd, sydd wedi'i feithrin gan ei enw da am ddarparu cynnwys o ansawdd, yn cefnogi gwerthu lle ar gyfer mân hysbysebion – yn gwerthu ceir, tai, gwyliau pen ucha'r farchnad a gwasanaethau calonnau unig

10. Barn Dr. Williams oedd bod yn rhaid i'r dull hwn fynd law yn llaw â newyddiaduraeth o ansawdd da iddo weithio.

11. Eglurodd Media Wales fod ei fodel busnes eisoes wedi bod yn esblygu i gynnwys elfen gwe sylweddol:

*We are looking at growing our audience and although circulations have fallen there is enormous growth in online traffic. It is our job to ensure that newspapers and websites work well together so that they complement each other and serve the needs of the audience.*

---

[17] Deloitte *Media Predictions TMT Trends 2009* http://www.deloitte.co.uk/TMTpredictions/attachments/TMT-Predictions-media.pdf

[18] Prifysgol Caerdydd – Dr. Williams, tystiolaeth lafar 22.01.09

*We have had many visitors from other newspaper groups who have come to see what we have done, and others are now following. That suggests we are running the business in an expert way and that we have a model that other people are copying*[19]

12. Mae'n ymddangos bod y rhyngrwyd yn fater anodd i grwpiau papurau newydd fynd i'r afael ag ef, ac ni wnaethom dderbyn unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol oddi wrth dystion y byddai'n gallu darparu cyfrwng sy'n ariannol gynaliadwy ac sy'n ategu papurau newydd printiedig.

13. A yw'r ffaith nad yw'r rhyngrwyd hyd yma'n cynhyrchu refeniw cynaliadwy ar gyfer papurau newydd yn achosi pryder? Efallai nad yw – efallai y daw model newyddion rhyngrwyd proffidiol i'r amlwg wrth i'r amgylchedd newyddion newid. Eglurodd yr Athro Franklin sut i Rupert Murdoch ddatblygu ei fusnes *BSkyB*:

*It is clear that he used profits from The Sun, one aspect of his empire, to fund the fledgling BSkyB production. Now the operation stands on its head and the super profits from Sky fund the ailing print wing of the operation*[20]

14. Wrth gwrs, mae yna enghreifftiau o wefannau newyddion ar-lein sy'n llwyddiannus ac sy'n cael eu rhedeg yn dda, ond prin yw'r dystiolaeth hyd yma bod hyd yn oed unrhyw rai o'r gwefannau hyn yn cynhyrchu unrhyw elw i'w perchnogion:

*It is no accident that the news websites that have done very well in this country, such as the Guardian's and the BBC's website, have seen massive long-term investment in online news staff as well as technology and they have also been protected from the marketplace because they do not have to pay out to shareholders*[21]

15. Roedd Alan Edmunds o Trinity Mirror yn optimistaidd ynglŷn â'r rhagolygon ar gyfer y rhyngrwyd, a gwrthbrofodd fod gweithredu yn y byd ar-lein yn cael effaith negyddol ar ansawdd newyddiadurol:

*Wales Online is by far the leading commercial news website in Wales and I think that you will find that we have a growth in traffic of about 29 per cent per annum…Has the quality of journalism decreased? Speaking as an editorial director and a journalist who has worked in Wales all my life, I would say absolutely not*[22]

16. Roedd Barrie Jones o NWN hefyd yn hyderus y bydd model ar-lein ei gwmni'n llwyddiannus yn y dyfodol:

---

[19] Media Wales – Alan Edmunds, Golygydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[20] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09
[21] Prifysgol Caerdydd – Dr. Williams, tystiolaeth lafar 22.01.09
[22] Media Wales – Alan Edmunds, Golygydd, tystiolaeth lafar 22.01.09

*We are making a profit, but obviously we want to grow it… It is still quite small in terms of our overall profit, but we expect that to change quite significantly in the next 18 months*[23]

17. Aeth ymlaen i egluro sut gallai model gwe NWN Media sy'n datblygu weithio'n symbiotig gyda'i deitlau printiedig:

*We write online in a way that engages debate in a very immediate way. There was a time, some years ago, when we would have been wary of putting our best stories online immediately, thinking, 'This is going to sell papers', but those days are gone. Nowadays, if a story breaks, it goes online first. Often, the story goes online first and because of the interaction that we have with the public, by the time that it goes into print, it is a better story…when it works it can benefit both areas*[24]

***Y model busnes 'minimax'***

*Local newspaper groups have operated a minimax business strategy designed to deliver high profitability by maximising revenues and minimising costs*[25]

18. Mae'r model busnes 'minimax' hwn yn nodweddu'r diwylliant elw uchel sydd wedi datblygu yn y diwydiant papurau newydd, ac wedi'i gyflawni trwy gyfuno teitlau, cwtogi ar niferoedd staff ac 'uwchsgilio' newyddiadurwyr i fod yn fedrus ar draws ystod eang o gymwysiadau'r cyfryngau.

*Cyfuno*

19. Er mwyn cwtogi ar gostau ac mewn ymateb i'r hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae busnesau papurau newydd wedi bod yn cyfuno'u papurau. Mae cyfuno'n gweithio trwy gwtogi ar gostau, cronni adnoddau a dileu dyblygu.

20. Mae yna sawl enghraifft o gyfuno yn y diwydiant. Er enghraifft, fe unodd Trinity Mirror ei weithrediad Media Wales â rhanbarth gogledd-orllewin Trinity Mirror yn ddiweddar i greu rhanbarth cyfunol ag un rheolwr-gyfarwyddwr rhanbarthol yn Lerpwl. O'r herwydd, am y tro cyntaf yn eu hanes, bydd y Western Mail a chwaer deitlau'n cael eu rheoli o'r tu allan i Gymru, sy'n golygu bod penderfyniadau hollbwysig sy'n effeithio ar y cwmni'n cael eu gwneud y tu allan i Gymru.

21. Yn ogystal â'r cyfuno hwn, mae Media Wales wedi gwneud newidiadau strwythurol i'w fusnes ar lefel leol, gan gynnwys cau swyddfeydd ardal. Pan heriwyd Alan Edmunds ynglŷn â hyn, dywedodd:

---

[23] NWN Media – Barrie Jones, tystiolaeth lafar 05.02.09
[24] NWN Media – Barrie Jones, tystiolaeth lafar 05.02.09
[25] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth ysgrifenedig BSC(3)-03-09, Papur 2

*We have closed the district offices but we are talking to other groups in the community about creating drop in centres. People can still interact with the newspapers locally, but our decisions about those offices are informed by experts in running newspaper businesses and securing a thriving future for those local papers*[26]

22. Mae'r NUJ yn ystyried bod y broses gyfuno hon yn ymosodiad ar ansawdd newyddiaduraeth sydd i'w weld yn helaeth mewn papurau newydd. Wrth wneud sylw ynglŷn â chyfuno Media Wales â Trinity Mirror North West and North Wales Ltd., dywedodd:

*…we are concerned about that issue and we want to ensure that it does not impinge on the ability of our Welsh newspapers to maintain a distinctly Welsh perspective*[27]

23. Mae safbwynt gweithredwyr papurau newydd yn wahanol, sef bod cyfuno'n cynnig cyfle i gwtogi ar gostau a chynnal ansawdd tra'u bod hefyd yn sicrhau bod y busnes yn parhau i fod yn broffidiol ac yn gynaliadwy yn yr amgylchedd sydd ohoni:

*In the context of Wales, [consolidation] will allow us to bring in resources to benefit the business which in all honesty we would have struggled to do if we had remained a single entity within the wider structure of Trinity Mirror plc*[28]

24. Roedd yr holl weithredwyr papurau newydd y gwnaethom siarad â nhw'n ystyried bod mesurau cyfuno'n offeryn allweddol i oroesi wrth symud ymlaen, a gwnaethant gadarnhau ei bod yn debygol y byddant yn parhau â hyn yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd ar ddod:

*I have no doubt that in a year's time there will be fewer newspapers in Wales than there are now…At the moment, there are four big newspaper chains in Britain…There are plenty of financial analysts who will tell you that the big four will have to become the big two to survive*[29]

25. Wrth ymateb i'r honiad y gallai cyfuno greu sefyllfaoedd monopoli annerbyniol, dywedodd Mr. Steacy, Rheolwr-Gyfarwyddwr Rhanbarthol Newsquest:

*There is this impression that we cannot have bigger groups because they will have too much control over the marketplace, but the reality is that if [my editor] does not provide products our readers want and think are good value, they will not purchase them…if you try to use your market dominance to drive pricing and you overprice yourself in a market, competitors will naturally come in*[30]

---

[26] Media Wales – Alan Edmunds, Golygydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[27] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Martin Shipton, Tystiolaeth lafar 22.01.09
[28] Trinity Mirror – Sara Wilde, Rheolwr-Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Media Wales, Tystiolaeth lafar 19.03.09
[29] Northcliffe Media – Spencer Feeney, tystiolaeth lafar 19.03.09
[30] Gavin Steacy – tystiolaeth lafar 19.03.09

*Cwtogi ar niferoedd staff*

26. Mae cwtogi ar niferoedd staff yn cwtogi ar gostau cynhyrchu. Roedd gwneud busnesau papurau newydd yn ‘fwy darbodus’ yn digwydd cyn yr argyfwng economaidd, er mwyn sicrhau cymaint o elw â phosibl:

*In 2003 Media Wales declared that it had 826 employees. By 2007 the number of employees was down to 553. In the course of 2008, we estimate there were at least another 65 job losses*[31]

27. Ac yn enwedig nawr, wrth i’r dirywiad economaidd gydio:

*I have probably by the end of this quarter reduced my total staff by around 20 per cent*[32]

28. Fodd bynnag, fel y dywedodd yr Athro Franklin yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, wrth dorri’r braster i ffwrdd, mae’n rhaid ichi fod yn ofalus nad ydych hefyd yn torri’r cyhyrau i ffwrdd – rhywbeth y mae’n cyhuddo’r diwydiant papurau newydd ohono:

*…my predecessor sent a questionnaire to regional and local newspaper editors asking them which skill they most wanted from journalists working with them on placement and the answer he received was – the ability to re-write a press release!*

*Newspaper companies now give reporters a quota. Stories drop into a category and newspapers specify the number of phone calls that reporters can make and the number of sources they can quote, word length and the number of stories they have to write per shift, which has gone up threefold, fourfold and fivefold in many places…journalists are treated almost like people who fill in the gaps between the text…so the integrity of journalism is lost and its capacity to challenge is deeply compromised by these working procedures that derive from understaffing, undercapitalisation and from fostering the wishes of shareholders rather than readers*[33]

29. Nid yw’n syndod bod safbwynt gweithredwyr papurau newydd yn wahanol. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hynod ymwybodol o’r angen iddynt gynnal ansawdd eu cynhyrchion ac o werth eu staff golygyddol wrth wneud hynny:

*…against last year we have probably lost one editorial member of staff. That is not because I am being soft with the editorial staff in a managerial sense; it is because we need a certain amount of staff to do news gathering and the production in creating and designing the pages…therefore you reach a threshold and irrespective of revenue coming into the business, you still need that amount of people to generate news and create newspapers*[34]

---

[31] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – tystiolaeth ysgrifenedig
[32] Gavin Steacy – Rheolwr-Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Newsquest, tystiolaeth lafar 19.03.09
[33] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09
[34] Gavin Steacy – Rheolwr-Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Newsquest, tystiolaeth lafar 19.03.09

*'Uwchsgilio' newyddiadurwyr*

30. Mae yna duedd eglur tuag at newyddiadurwyr yn dod yn fedrus ar draws ystod o wahanol blatfformau:

*All of our journalists are multimedia journalists now and fully trained in shooting video reports for example. All of our production journalists are fully trained in editing video reports and slide shows…*[35]

31. Mae gweithredwyr papurau newydd yn gwrthbrofi'r farn fod hyn yn effeithio'n negyddol ar ansawdd, ac wrth gydnabod y pwysau newidiol yn amgylchedd y cyfryngau, eu dadl yw eu bod yn newid â'r amseroedd, sy'n golygu newid sut mae newyddiadurwyr yn gweithio a sut maent yn cael eu hyfforddi:

*Times change and when you change as a business and change the way that you work, the responsible thing to do is to achieve that at the optimum cost in the most efficient way possible. What we do is very strategic and totally focussed on our customers – our readers and our advertisers – because delivering to them is how we make a successful business*[36]

***Symud ymlaen***

32. Mae'n ymddangos bod cydbwysedd cyfredol y model 'minimax' yn anghynaliadwy. Yn ystod yr amseroedd o ddigonedd, fe gyflawnodd y model gyfraddau elw uchel i gyfranddalwyr am gyfnod hir.

*…newspapers have been treated as a milk cow by the major news corporations and the regional and local news companies. Trinity Mirror is probably one of the worst culprits, but they are all in the same boat.*[37]

33. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i grwpiau papurau newydd newid eu modelau busnes i oroesi. Efallai bod elw uchel y gorffennol diweddar yn anghynaliadwy wrth symud ymlaen:

*'Investors should be told that there is a future for the industry, albeit with lower profit margins. The levels of profitability achieved would still be seen as very high in almost every other industry. In the 26 weeks to August 2008 for example, the pre-tax profit margin of Tesco plc was 5.66%'*[38]

34. Cynigia Dr. Williams y dylid canolbwyntio ar y dull 'triad Reithaidd' o drin busnes papurau newydd, a ddylai gynnwys elfen gwasanaeth cyhoeddus a chyfrannu at weithrediad democratiaeth trwy addysgu a hysbysu yn ogystal â difyrru.

35. Nid oes gan agwedd 'addysgu' egwyddorion Reith gysylltiad mor uniongyrchol â gwneud elw, ac mae'n awgrymu y dylai rolau papurau

[35] SWW Media Ltd – Spencer Feeney, Prif Olygydd, tystiolaeth lafar 19.03.09
[36] Media Wales – Alan Edmunds, Cyfarwyddwr Golygyddol, tystiolaeth lafar 22.01.09
[37] Prifysgol Caerdydd – Dr. Williams, tystiolaeth lafar 22.01.09
[38] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – tystiolaeth ysgrifenedig

newydd gynnwys dweud wrth bobl yr hyn y *dylent* ei wybod, ac nid yr hyn y maent yn galw amdano'n unig. Mae'r Athro Franklin yn disgrifio hyn fel taith ddarganfod:

*It is the difference between going to Hay on Wye or the Amazon website for a book. If you know what you want, Amazon is fine, but if you are just looking around, just fishing, if you are culturally interested and looking to be engaged, you go to Hay*[39]

36. I greu model busnes cynaliadwy, awgrymodd Dr. Williams y 'model buddsoddi mewn newyddiaduraeth' sy'n:

*One which takes some of the very large profits that have been made and reinvests them in the core product…. Much of the academic research around this issue suggests that this is the best and most sustainable way of doing this*[40]

37. Mae Tindle News wedi trin pethau yn y modd hwn yn draddodiadol. Fel cwmni preifat ag un cyfranddaliwr, sef Syr Ray Tindle, mae'n rhydd o hualau galwadau cyfranddalwyr y mae'n rhaid i'r chwaraewyr mawr eraill eu rheoli. Dull Tindle o weithredu yw bwydo elw yn ôl i'r busnes:

*The majority of profits go into reserves so that when hard times come, like this winter, when suddenly everything collapses, we can use them. We have newspapers with lots of property advertising – there is one where £1 million of property advertising was wiped out in one go. That hurts, but we have the reserves so we batten down the hatches, lower spending and keep the papers while they are still producing a profit, although it might be a reduced profit and our reserves might decline*[41]

38. Mae hwn yn ddull sydd wedi'i brofi trwy chwe dirwasgiad blaenorol. Dywedodd Tindle News wrthym eu bod, bob tro, wedi dod allan yr ochr arall yn gryfach nag o'r blaen.

## Rhwystrau eraill i bapurau newydd

39. Mae yna ystod o faterion y gall llywodraethau a sefydliadau, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ddylanwadu arnynt.

### *Ymddieithrio â gwleidyddiaeth*

*...mae'r angen i'r Cynulliad, fel sefydliad cymharol newydd a gwahanol o hyd, ddatblygu lefel ddofn o gyswllt â'r cyhoedd wedi bod yn her fawr ac anodd. Yn ei ddegawd cyntaf, mae wedi wynebu'r her o sefydlu ei hun yn naratif bywydau pobl ac yntau'n dechrau o ddim, a hynny yng nghyd-destun yr*

[39] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09
[40] Prifysgol Caerdydd – Dr. Williams, tystiolaeth lafar 22.01.09
[41] Tindle News – Brian Doel, Rheolwr-Gyfarwyddwr – tystiolaeth lafar 05.03.09

*ymddieithrio oddi wrth wleidyddiaeth sy'n nodwedd o'r rhan fwyaf o ddemocratiaethau yn y byd datblygedig...*[42]

40. Mae ymddieithriad y cyhoedd â gwleidyddiaeth a'r broses wleidyddol yn broblem gyffredin, nid yn unig yng Nghymru, ond yng Nghymru mae yna gymhlethdodau pellach. Mae'r 10 mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol, gan gychwyn â datganoli ym 1999, sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol a system wleidyddol newydd, ac yna ail Ddeddf Llywodraeth Cymru yn 2006 a grymoedd deddfu newydd.

41. Mae'r sefyllfa wleidyddol unigryw yng Nghymru fwy neu lai yn anweladwy i lawer o grwpiau cyfryngau'r DU gyfan. Yn ôl disgrifiad y Gweinidog roedd yna 'absenoldeb llwyr bron cyfeiriadau at Gymru ar dudalennau newyddion papurau newydd Llundain'. Daeth Grŵp Cynghori ar Ddarlledu[43] Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r casgliadau a ganlyn ynglŷn â chyflwr newyddiaduraeth print:

- Nid oes unrhyw un o bapurau newydd Llundain yn argraffu rhifyn i Gymru. Mae bron 90% o ddarllenwyr papurau newydd Cymru yn darllen papurau heb unrhyw gynnwys Cymreig

- Wrth ystyried anghenion democrataidd a diwylliannol cynyddol gwlad sy'n profi llywodraeth ddatganoledig newydd, rhaid i'r ddarpariaeth gyfryngol gyfan yng Nghymru gyfrannu at y canlynol, a rhoi adlewyrchiad llawn ohonynt:

    - democratiaeth sydd wedi'i goleuo'n briodol, ac sy'n gallu cael at gronicladau, dadansoddiadau ac ymchwiliadau o ansawdd da o amrywiaeth o ffynonellau proffesiynol

    - cymdeithas sy'n grwn o safbwynt diwylliannol, ac y bydd y cyfryngau yn darparu digon o le i fynegiant llawn ac amrywiol ar ei chyfer

    - economi sy'n amlwg greadigol lle mae'r cyfryngau'n torri tir newydd ac yn sbarduno'r diwydiannau creadigol

42. Mae'n hanfodol mynd i'r afael ag ymddieithriad y cyhoedd â gwleidyddiaeth ac, yn enwedig, gwleidyddiaeth Cymru, ac mae papurau newydd yn offeryn gwerthfawr wrth ysgogi dadl a chynyddu ymgysylltiad.

43. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru addysgu'r cyhoedd ynglŷn â'r rôl mae'n ei chwarae (a rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru). Fodd bynnag, mae gan bapurau newydd rôl hefyd mewn adrodd ar wleidyddiaeth, sy'n fwy na dim ond ailgyfogi datganiadau i'r wasg oddi wrth lywodraeth, cynghorau a

---

[42] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig

[43] Fe sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Grŵp Cynghori ar Ddarlledu yr hydref diwethaf, yn bennaf i archwilio'r problemau y mae darlledwyr yng Nghymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan fod yna gysylltiad annatod rhwng y datblygiadau hyn a chyflwr newyddiaduraeth print, fe wnaeth y grŵp sylwadau ar y cyfryngau print. http://www.assemblywales.org/bsc_3_-02-08_-_paper_2_-_e_-_welsh_assembly_government_-_broadcasting_advisory_group_report.pdf

Chynulliad Cymru. Rydym o'r farn bod yna rôl yma i gorff newydd gynorthwyo â darparu copi gwrthrychol a manwl gywir i bapurau newydd Cymru – 'Comisiwn Cyfryngau Cymru'. Archwilir hyn yn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ddarlledu sy'n cynnwys argymhelliad bod Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn creu corff o'r fath.

***Rheolau perchnogaeth traws-gyfryngau***

44. Mae grwpiau'r cyfryngau, gan gynnwys grwpiau papurau newydd, wrthi ar hyn o bryd yn canolbwyntio'u sylw ar y 'rheolau perchnogaeth traws-gyfryngau' o'r safbwynt eu bod o bosibl yn cynnig ateb i'r anawsterau y mae'r diwydiant print yn eu hwynebu. Mae rheolau a weinyddir gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn rheoli perchnogaeth ar wahanol blatfformau'r cyfryngau. Disgrifir y rhain isod:

***Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) – rheolau perchnogaeth traws-gyfryngau cyfredol***

- *Gall DCMS ymyrryd ac atal cwmnïau'r cyfryngau rhag cyfuno pan fydd o'r farn nad yw hynny er budd y cyhoedd*
- *Mae Ofcom yn adolygu rheolau perchnogaeth y cyfryngau o leiaf bob 3 blynedd, ac mae'n gwneud argymhellion i DCMS ar unrhyw ddiwygio angenrheidiol*
- *Mae yna reol '20%' cenedlaethol:*
    - *ni all unrhyw un sy'n rheoli mwy nag 20% o'r farchnad papurau newydd cenedlaethol ddal unrhyw drwydded ar gyfer sianel tri*
    - *ni all unrhyw un sy'n rheoli mwy nag 20% o'r farchnad papurau newydd cenedlaethol ddal cyfran sy'n fwy nag 20% mewn unrhyw wasanaeth sianel tri*
    - *ni all cwmni fod yn berchen ar gyfran sy'n fwy nag 20% mewn gwasanaeth sianel tri os yw perchennog papur newydd cenedlaethol sydd â mwy nag 20% o'r farchnad, yn ei dro, yn berchen ar fwy nag 20% o'i stoc*
- *Mae yna hefyd reol '20%' rhanbarthol: ni all unrhyw un sy'n berchen ar drwydded Sianel 3 ranbarthol fod yn berchen ar fwy nag 20% o'r farchnad papurau newydd lleol/rhanbarthol yn yr un rhanbarth*
- *Bydd rheolau ar berchnogaeth radio lleol yn sicrhau bod yna o leiaf tri llais cyfryngau masnachol lleol/rhanbarthol (ym meysydd teledu, radio a phapurau newydd) yn ogystal â'r BBC mewn marchnadoedd datblygedig.*[44]

45. Roedd yr holl grwpiau papurau newydd y clywsom oddi wrthynt yn sicr bod y rheolau cyfredol ar berchnogaeth traws-gyfryngau'n ddiangen o gyfyngol

[44] Gwefan DCMS - http://www.culture.gov.uk/what_we_do/broadcasting/3174.aspx

ac y gallai eu diddymu gynnig cyfleoedd newydd i gwmnïau papurau newydd:

*'newspaper companies cannot own television companies, unless you are in the privileged position of being Rupert Murdoch and of owning a satellite television company. […] The media companies are keen on moving to a situation where there can be cross-media ownership. We advocate that if such relaxation is to be granted, these media companies ought to guarantee and commit to the quality of the material that will be produced in future, including the newspaper titles involved in such merged companies'*[45]

46. Mynegodd Trinity Mirror hefyd y byddai'n cefnogi llacio'r rheolau traws-gyfryngau. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i archwilio partneriaethau newydd posibl:

*'The Competition Authority's definition of the marketplace is narrow and outdated; competition laws as they apply to newspapers ignore the modern broader media landscape and regional newspapers play just one part in that. The authority is rightly concerned about plurality of voice in the newspaper market and the danger of news becoming homogenised, but in the modern multimedia world, media is becoming increasingly local so plurality of voice is increasing in any case. Competition law as it currently stands runs the risk of seeing the disappearance of vulnerable titles'*[46]

47. Mae'n amlwg fod yna archwaeth am gydweithredu traws-gyfryngau neu o leiaf am archwilio posibiliadau partneriaethau posibl. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn cytuno'i bod yn beth da llacio rheolau traws-gyfryngau. Barn yr Athro Franklin oedd bod newidiadau mewn proffiliau perchnogaeth yn hynod gyflym gydol y 1990au a bod y rhyngrwyd, yn enwedig, bellach yn cael ei '*corporatised*' a'i '*conglomeratised*' yn fyd-eang â chanlyniadau niweidiol. Mae'r Athro Franklin yn dyfynnu enghraifft o grŵp papurau newydd yn cydgrynhoi argraffu mewn un lleoliad er mwyn cwtogi ar gostau, ac yn achosi i bapurau 'aros mewn lori' am dair awr, ac o ganlyniad yn crebachu'r diwrnod newyddion:

*Someone said to me: 'we're publishing yesterday's news tomorrow'. The whole notion of a daily newspaper has slipped*[47]

48. Mynegodd yr Athro Franklin amheuaeth hefyd ynglŷn â'r potensial i fonopolïau allu datblygu ar draws platfformau'r cyfryngau pa bae'r rheolau'n cael eu llacio, a'r potensial i gorfforaethau wthio'r ffiniau mor bell ag y gallant:

*…banks are suggesting to media companies that they ignore existing competition regulations which they see as primitive and as not suitable for the digital age because monopolies are understood within geographical boundaries…I think that big financial institutions are recommending a sort of*

[45] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Martin Shipton, Tystiolaeth lafar 22.01.09
[46] Media Wales – Alan Edmunds, Golygydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[47] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09

*'gung-ho' challenge to existing regulation along the lines of 'see what they do, call their bluff'*[48]

49. Er ein bod yn cydnabod y pryderon hyn, rydym yn ystyried ei bod yn anodd gweld sut gellid cael ateb i'r 'broblem papurau newydd' heb addasu rhywfaint ar y rheolau traws-gyfryngau sy'n chwarae rhan. Rydym o'r farn y gellid llunio partneriaethau i gynnal cynaliadwyedd y cyfryngau print a chyfryngau eraill. Roedd crynodeb y Sefydliad Materion Cymreig o hyn yn dda:

*Mae rhywbeth i'w ddweud dros alluogi rhai o gryfderau papurau megis y Western Mail a'r Daily Post i gryfhau newyddiaduraeth ar radio masnachol. Nid yw radio masnachol yn gwneud llawer o elw. Mae'n sefyllfa go fregus; mae newyddiaduraeth ar radio masnachol yn go wan. Pe bai modd i rai o'r cwmnïau hyn helpu ei gilydd, gellid cryfhau newyddiaduraeth ar radio masnachol*[49]

50. Fodd bynnag, rydym yn deall yn arbennig pryder ynghylch yr effaith niweidiol bosibl ar luosogrwydd, a dyna pam ein bod yn argymell bod Llywodraeth y DU yn archwilio sut gallai o bosibl lacio'r rheolau a chynnal lluosogrwydd ar yr un pryd.

**Argymhelliad 1:**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno achos i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd bod rheolau traws-gyfryngau'n cael eu llacio i ganiatáu archwilio partneriaethau newydd

**Argymhelliad 2:**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno achos i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd y bydd mesurau i amddiffyn lluosogrwydd cyfryngau lleol yn cyd-fynd ag unrhyw symudiad i lacio rheoliadau sy'n ymwneud â pherchnogaeth traws-gyfryngau

### *Gwella cefnogaeth llywodraeth*

51. Gall llywodraethau ymyrryd pan mae marchnad yn methu, er enghraifft, pan ganfyddir bod yr hyn y mae'r farchnad yn ei gynnig yn hanfodol ond y byddai hynny'n diflannu heb ymyrraeth. Mae cyfraniad papurau newydd i gymdeithas, yn ein barn ni, yn eu rhoi yn y categori hwn. Clywsom dystiolaeth o sawl ffordd y gall llywodraethau ymyrryd yn y diwydiant papurau newydd.

[48] Yr Athro Bob Franklin – tystiolaeth lafar 05.03.09
[49] Sefydliad Materion Cymreig – Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, tystiolaeth lafar 22.01.09

52. Mae llywodraethau mewn gwledydd eraill yn helpu ac yn cefnogi papurau newydd i sicrhau eu bod yn goroesi:

*...mae nifer o wledydd ar draws y byd yn rhoi cymorthdaliadau i bapurau newydd. Mae gwledydd y Llychlyn yn gwneud llawer, ac mae cymhorthdal ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu. Credaf, yn Sweden, fod cymhorthdal arbennig ar gyfer dosbarthu papurau ar ddydd Sadwrn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig*[50]

53. Mae gan Ffrainc hefyd system o ddosbarthu cymorthdaliadau i bapurau newydd:

*...[mae'r] dreth ar werth ar bapurau yn Ffrainc yn is, ac mae newyddiadurwyr yn cael teithio ar y rheilffordd am hanner y pris. Yr wyf yn siŵr y byddai hynny'n ddeniadol iawn i nifer ohonynt yma*[51]

54. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu cymorthdaliadau i gyhoeddiadau Cymraeg oherwydd yr angen i gynnal yr iaith Gymraeg, ond nid yw'n gwneud hyn i gyhoeddiadau Saesneg Cymru:

*Yr ydym yn rhoi cymhorthdal i nifer o gylchgronau yng Nghymru, a'r rhan fwyaf ohonynt yn y Gymraeg, a'r rhan fwyaf yn gyfnodolion llenyddol, diwylliannol. Efallai nad ydym yn talu digon o sylw i'n diwylliant gwleidyddol*[52]

55. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu rhyw £173,000 y flwyddyn i gefnogi gyhoeddiadau Cymraeg, wedi'i sianelu trwy Gyngor Llyfrau Cymru, yn benodol i dri chyhoeddiad ym maes newyddion a materion cyfoes (Barn, Golwg, Y Cymro).[53]

*...os ydym yn mynd i roi unrhyw help yn y dyfodol, mae angen targedu hynny'n fanwl, fel mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei wneud gyda newyddiaduriaeth Gymraeg ar-lein drwy'r cymhorthdal i Golwg Cyf. Efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ystyried i ba raddau y mae'n barod i wneud rhywbeth tebyg yn Saesneg*[54]

56. Rydym yn cytuno â'r farn hon nad ydym yn rhoi digon o sylw i'n 'diwylliant gwleidyddol' ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu cymorth tebyg i bapurau newydd Saesneg Cymru, o ystyried eu sefyllfaoedd ansicr ar hyn o bryd.

57. Clywsom dystiolaeth hefyd o broblemau â hyfforddi newyddiadurwyr, sy'n gallu bod yn ddrud, ac y gall myfyrwyr newyddiaduraeth ddisgwyl ennill llai na chyflog cyfartalog graddedigion pan fyddant yn dechrau gweithio. Mae hyn o bosibl yn broblem i grwpiau papurau newydd:

---

[50] Sefydliad Materion Cymreig – Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[51] Sefydliad Materion Cymreig – Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[52] Sefydliad Materion Cymreig – Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, tystiolaeth lafar 22.01.09
[53] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig
[54] Sefydliad Materion Cymreig – Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, tystiolaeth lafar 22.01.09

*It costs youngsters £3,000 - £4,000 to go through Cardiff School of Journalism to achieve the level of pre-entry qualifications that I need…on training grants in our business, I would take anything that was on offer because training is costly, not only in money but also in time*[55]

58. Gwnaeth Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yr ail Gynulliad argymhelliad y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru 'adolygu'r cyrsiau hyfforddi newyddiadurwyr a ddarperir mewn colegau addysg bellach ac addysg uwch gan ddefnyddio arian cyhoeddus'. Pan ofynnwyd i gyfarwyddwr diwylliant Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â hyn, fe ddarparodd nodyn ysgrifenedig ar sut aed i'r afael â'r argymhelliad hwn:

*WAG produces regular analyses of future national skills needs which inform our priority settings and decision making by our partners and providers. To date skills needs for the publishing sector have not been identified as being a priority area*[56]

59. Dylid ystyried hyfforddiant newyddiadurwyr ochr yn ochr â mecanweithiau cymorth posibl eraill Llywodraeth y Cynulliad, mewn deialog â chwmnïau papurau newydd yng Nghymru.

**Argymhelliad 3:**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu deialog â chwmnïau papurau newydd ac undebau i archwilio modd o gefnogi newyddiaduraeth Saesneg yng Nghymru

60. Gellir darparu cymorth i bapurau newydd yn anuniongyrchol trwy osod hysbysebion ynddynt. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwsmer allweddol i grwpiau papurau newydd yng Nghymru, gyda'r Western Mail yn arbennig yn derbyn refeniw hysbysebu sylweddol oddi wrthi.

*The majority of posts are advertised in the Western Mail and Echo and the Daily Post (Wales)*[57]

61. Dywedodd Media Wales wrthym fod llawer o'i hysbysebwyr yn dod o sail y sector cyhoeddus, felly mae'n amlwg fod hyn yn bwysig i'w hiechyd ariannol, er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yn defnyddio strategaeth hysbysebu wahanol sydd â goblygiadau i bapurau newydd.

62. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cwtogi ar ei gwariant blynyddol ar hysbysebu swyddi o £811k yn 2005/06 i £267k yn 2007/08 – lleihad sylweddol a yrrir gan gost uchel hysbysebu yn y cyfryngau print; ymgyrch Swyddfa'r Cabinet i gwtogi ar gostau hysbysebu yn y Gwasanaeth Sifil

---

[55] Gerry Keithly – Rheolwr-Olygydd Rhanbarthol, Newsquest, tystiolaeth lafar 19.03.09
[56] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig atodol 05.03.09
[57] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig atodol 05.03.09

trwyddo draw, a gwell technoleg ar-lein ar gyfer hysbysebu a hybu swyddi dros y rhyngrwyd.[58]

63. Er mai strategaeth hysbysebu gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw symud yn fwy tuag at hysbysebu ar y rhyngrwyd, sy'n well gwerth am arian yn ei barn hi, mae ganddi ddyletswydd statudol o hyd i hysbysebu hysbysiadau a gorchmynion priffyrdd yn y wasg genedlaethol a lleol (am gyfanswm cost sy'n fwy na £1M y flwyddyn).

64. Mynegodd tystiolaeth y gwnaethom ei derbyn oddi wrth grwpiau papurau newydd yn hytrach na Media Wales fod papurau lleol yn cael llai na'u cyfran deg o'r hysbysebu hwn gan y llywodraeth:

*One thing that is a real irritation for me is public notices that relate to say Newport not going into the Newport papers, even though we have the vast majority of readership, but being put in the Western Mail instead…I would ask that people be sensible in placing advertisements in publications that actually reach the public. That is the whole point of public notices*[59]

65. Roedd yr holl grwpiau papurau newydd lleol y gwnaethom siarad â nhw'n rhannu'r farn hon:

*We sometimes feel when money is spent on advertising, that our standing in the community in the north is invisible… there is a feeling that everyone will be covered by the Western Mail and the Daily Post. That is not true, and if you were to advertise for a specific job in Wrexham, although I am not a sales representative, I would strongly argue that, that advertisement should be in our paper*[60]

66. Rydym yn gweld gwerth y dadleuon hyn, ac rydym yn amau ei bod weithiau'n haws 'ticio blwch' trwy hysbysebu yn y Western Mail. Rydym wedi'n siomi nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflawni argymhelliad adolygiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon o bapurau newydd yn 2005, a hoffem weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn magu dull ehangach o drin gosod hysbysebion mewn mwy o bapurau lleol ac ar wefannau hysbysebu, ac yn ystyried pob maes cydraddoldeb.

67. Efallai yr hoffai Comisiwn y Cynulliad hefyd ystyried sut mae'n mynd ati i hysbysebu swyddi.

**Argymhelliad 4:**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth lunio'i dull strategol o drin hysbysebu, ystyried cylchrediad a threiddiadau'r papurau newydd dan sylw, a sicrhau nad yw teitlau perthnasol yn cael eu hesgeuluso. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad gyfathrebu ei strategaeth hysbysebu'n eglur i gwmnïau papurau newydd Cymru

[58] Y Gweinidog dros Dreftadaeth – tystiolaeth ysgrifenedig atodol 05.03.09
[59] Gavin Steacy – tystiolaeth lafar 19.03.09
[60] NWN Media – Barrie Jones, tystiolaeth lafar 05.02.09

### *Cylchlythyrau awdurdodau lleol*

68. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cynhyrchu eu cylchlythyrau eu hunain. Mae'r rhain yn achosi problemau i bapurau lleol:

*The use of public money to create such competition could have a highly damaging effect on the strength and viability of local newspapers already struggling with an array of competitive pressures. We find this use of public money to be at total odds with the desire for strong local media and democracy*[61]

69. Roedd y mwyafrif o'r grwpiau papurau newydd y gwnaethom siarad â nhw'n rhannu'r farn hon:

*I take issue with the idea of councils producing objective newspapers. Councils are producing newspapers that reflect the political opinion of the leading party and its policies…a publicly funded PR machine tries to take money away from the private sector by using public money to muscle its way into our business. That is completely wrong.*[62]

70. Rydym yn cytuno nad yw hon yn ffordd briodol o ddefnyddio arian cyhoeddus, ac y gallai fod yn niweidiol i'r diwydiant papurau newydd yng Nghymru, yn enwedig os yw'n cystadlu â phapurau newydd lleol am hysbysebion.

### *Comisiwn Cyfryngau Cymru*

71. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, roedd yr Is-bwyllgor Darlledu a'i riant bwyllgor (y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant) yn cynnal ymchwiliad ar yr un pryd i Ddarlledu yng Nghymru. Mae Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn wynebu heriau difrifol, yn bennaf i luosogrwydd darpariaeth yng Nghymru, gan adleisio'r anawsterau y mae'r diwydiant papurau newydd yn eu hwynebu.

72. Yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, daeth yn eglur i ni y gallai 'Comisiwn Cyfryngau Cymru' gynnig ateb i'r problemau y mae'r diwydiant darlledu a'r diwydiant papurau newydd fel ei gilydd yn eu hwynebu. Roedd ein tystion yn cytuno â'r syniad o gorff o'r fath:

*'It would be a good idea if the Assembly were to establish some kind of media forum, because, as well as the newspaper industry being under threat, there are turbulent times ahead for the broadcasting industry'*[63]

73. Siaradodd Barrie Jones o NWN am wella ansawdd newyddiaduraeth yng Nghymru, ac awgrymodd y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru chwarae rôl bositif yn hyn o beth:

---

[61] Trinity Mirror – tystiolaeth ysgrifenedig
[62] Gerry Keithly – Rheolwr-Olygydd Rhanbarthol, Newsquest, tystiolaeth lafar 19.03.09
[63] Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Martin Shipton, Tystiolaeth lafar 22.01.09

*If we start with the quality of the journalism, we need good regional debate about regional issues. We would ask the Assembly to support that wherever possible – I am sure that we would get that support – and where that is missing, to identify that lack*[64]

74. Aeth ymlaen i ddweud:

*It would be good to see a stronger opinion from the Assembly on where we are right and wrong, and what it is trying to do to improve the situation… So, the Assembly could change attitudes even more, if only to offer an opinion by saying, for example, 'We have read what you said in your paper last night, and it is wrong—this is how things are, and it is important that people in the area understand that'*

75. Efallai mai Comisiwn Cyfryngau Cymru yw'r lle iawn ar gyfer cynnal y ddadl hon. Manylir ar y cynigion ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru yn adroddiad ein rhiant bwyllgor ar ddarlledu.

### *Crynodeb*

76. Mae'r heriau y mae'r diwydiant papurau newydd yn eu hwynebu yn eang eu hystod. Yr hyn sy'n eglur yw y gallai'r diwydiant papurau newydd yn wir wynebu difodiant os na chymerir unrhyw gamau ar unrhyw lefel gan unrhyw randdeiliad. Mae goroesi'n dibynnu ar esblygiad ac ymateb cyflym i'r pwysau hyn. Mae unrhyw atebion llwyddiannus yn debygol o fod yr un mor eang eu hystod, ac rydym yn gobeithio y bydd y diwydiant papurau newydd a'r llywodraethau'n gweithredu'n gyflym ac yn briodol i ddiogelu papurau newydd yng Nghymru a'u cyfraniad gwerthfawr.

---

[64] NWN Media – Barrie Jones, tystiolaeth lafar 05.02.09

**Atodiad 1**

**Sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor**

| Cyflwynydd | Sefydliad | Cyfeirnod Paragraff y Trawsgrifiad |
|---|---|---|
| **22 Ionawr 2009** | | |
| • Martin Shipton<br>• Dr Andy Williams | Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr<br>Prifysgol Caerdydd | 6-142 |
| • Alan Edmunds, Cyfarwyddwr Golygyddol | Cyfryngau Cymru, Trinity Mirror | 93-142 |
| • Geraint Talfan Davies, Cadeirydd | Y Sefydliad Materion Cymreig | 146-185 |
| **5 Chwefror 2009** | | |
| • Barrie Jones, Prif Olygydd | Cyfryngau Papurau Newydd Gogledd Cymru | 8-71 |
| **5 Mawrth 2009** | | |
| • John Howells, Cyfarwyddwr Diwylliant | Llywodraeth Cynulliad Cymru | 8-61 |
| • Yr Athro Bob Franklin | Prifysgol Caerdydd | 63-130 |

| | | |
|---|---|---|
| • Brian Doel, Rheolwr Gyfarwyddwr y Grwp | Tindle Newspapers Cyfyngedig | 133-186 |
| **19 Mawrth 2009** | | |
| • Gavin Steacy, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol<br>• Gerry Keighley, Rheolwr Golygu Rhanbarthol | Newsquest<br>Newsquest | 4-89<br>37-89 |
| • Spencer Feeney, Prif Olygydd | Cyfryngau De Orllewin Cymru Cyfyngedig | 93-137 |
| • Sara Wilde, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Cyfryngau Cymru | Trinity Mirror | 139-218 |

**Atodiad 2**

## Atodlen Papurau'r Pwyllgor

| **Dyddiad** | **Enw'r Sefydliad** | **Rhif Cyfeirnod y Papur** |
|---|---|---|
| 22 Ionawr 2009 | Cymdeithas Genedlaethol y Newyddiadurwyr | BSC(3)-01-09 (p1) |
| 22 Ionawr 2009 | Y Sefydliad Materion Cymreig | BSC(3)-01-09 (p2) |
| 5 Chwefror 2009 | Cyfryngau Papurau Newydd Gogledd Cymru | BSC(3)-02-09 (p2) |
| 5 Mawrth 2009 | Llywodraeth Cynulliad Cymru | BSC(3)-03-09 (p1) |
| 5 Mawrth 2009 | Prifysgol Caerdydd | BSC(3)-03-09 (p2) |
| 5 Mawrth 2009 | Prifysgol Caerdydd | BSC(3)-03-09 (p2a) |
| 5 Mawrth 2009 | Tindle Newspapers Cyfyngedig | BSC(3)-03-09 (p3) |
| 19 Mawrth 2009 | Trinity Mirror | BSC(3)-03-09 (p1) |

**Gellir gweld copïau o'r holl bapurau a thrawsgrifiadau yn:**

**http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-bsc-home/bsc_3__agendas_papers.htm**